



Lôn Heywood Lane
Dinbych y Pysgod/
Tenby
SA70 8BZ

☎ 01834-843248

Pennaeth/Headteacher :
Mrs Vicky Hart-Griffiths

Pennaeth: Mrs Vicky Griffiths
cadeirydd y Llywodraethwyr (Corff Llywodraethol dros dro): Ms Julie Jones

CYTUDEB YSGOL / CARTREF

Mae
Ysgol Hafan y Môr

a

.....
yn cytuno ein bod yn cydweithio i gael y gorau ar gyfer

.....
tra ei bod hi / ei fod ef yn yr ysgol.

Arwyddwyd: Pennaeth	
Athrawes	
Rhiant	
Disgybl	

Dyddiad

Safonau yn yr Ysgol:

Mae ein cwricwlwm yn seliedig ar Gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a Fframwaith y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Sicrhawn bod y cwricwlwm yn diwallu anghenion ein holl blant, ac yr ydym yn credu bod gan bob un ohonom gyfraniad o ran cyrraedd ein nodau.

Cymeriad ein hysgol:

Anelwn at feithrin yr ethos gofalus, cartrefol, a gweithgar sydd yn yr ysgol drwy sefydlu perthynas bositif a datblygu partneriaeth gadarn ymysg pawb sydd â rhan i'w chwarae yn addysg y plant.

Disgwyliwn fod yna berthynas dda rhwng yr holl ddisgyblion â'i gilydd a rhwng y disgyblion ag oedolion. Disgwyliwn i bawb sy'n gysylltiedig â'r ysgol ddangos parch at bobl ac at eiddo.

Presenoldeb:

Yr ydym yn disgwyl i'r holl blant ddod i'r ysgol yn rheolaidd. Mae'r diwrnod ysgol yn cychwyn am 8.50 yb. ac yr ydym yn cau'r gofrestr am 9.00. yb.

Mae rhieni yn gyfrifol yn gyfreithiol am sicrhau bod eu plant yn dod i'r ysgol, ac mae'n rhaid iddynt roi gwybod i'r ysgol am unrhyw absenoldeb.

Yn Ysgol Hafan y Môr yr ydym yn mynnu bod y rhieni yn anfon nodyn yn esbonio'r absenoldeb pan fo'r plentyn yn dychwelyd i'r ysgol.

Dylai'r rhieni gofio bod yn rhaid i'r ysgol gytuno i unrhyw absenoldeb yn ystod y tymor. Nodwch os gwelwch yn dda, y bydd y ceisiadau am wyliau yn cael ei wrthod o dan y rheoliadau newydd a osodwyd gan ERW 2014.

Dîsgyblaeth ac Ymddygiad:

Mae dîsgwyl i'r holl blant a'r staff yn Ysgol Hafan y Môr gydymffurfio â rheolau ein hysgol.

Gofynnir i'r rhieni gefnogi'r ysgol drwy lynnu at ein cytundeb o ran dîsgyblaeth ac ymddygiad.

Mae croeso i'r rhieni ddarllen ein polisiau ynghylch ymddygiad ac atal bwllo, a rhoi eu sylwadau arnynt.

Gwaith Cartref:

Mae adran yn Llawlyfr y Rheini yn cyfeirio at bolisi gwaith cartref, a'r canllawiau ar sut y gall rheini gefnogi eu plant gyda gwaith cartref.

Dylem gofio taw'r ansawdd ac nid y swm sy'n bwysig, a bod plant yn elwa fwyaf pan fyddant yn gallu siarad ag oedolion am beth y maent yn ei wneud.

Sut a phryd y mae rhieni a'r ysgol yn cyfnewid gwybodaeth:

Mae Ysgol Hafan y Môr yn anfon llythyr newyddion ar gyfer y plant, y staff a'r rhieni yn rheolaidd. Mae'r llythyr newyddion hyn yn cynnwys gwybodaeth, amserau cyfarfodydd, digwyddiadau ac yn y blaen.

Gofynnir i rieni i fynychu nosweithiau agored dwy waith y flwyddyn (Gwanwyn ac Haf) i edrych ar lyfrau eu plentyn / plant a thrafod cynnydd gyda'r athro/ athrawes ddosbarth yn ôl yr angen. Mae gofyn i rieni hefyd i ddod i gyfarfod cynnydd a chyrhaeddiad ffurfiol gyda'r athro/athrawes ddosbarth yn ystod tymor yr Hydref. Mae rhieni yn derbyn adroddiad blynyddol ar gynnydd eu plentyn / plant, sydd hefyd yn cynnwys targedau ar gyfer y dyfodol. Dylai rhieni drafod gyda'r athro y ffordd orau o gyfrannu tuag at gyflawni hyn.

Mae angen i rieni roi gwybod i'r ysgol os ydynt yn poeni am unrhyw beth a allai effeithio ar gynnydd eu plentyn yn yr ysgol. Siaradwch â'r Athro/Athrawes Ddosbarth, a'r Pennaeth os bydd angen.

Canmoliaeth a Chwynion:

Rydym bob amser yn gwerthfawrogi derbyn canmoliaeth ar lafar neu ar bapur ac mae'n ffordd dda i ni fesur ein heffeithlonrwydd.

Mae gennym oll hawl i gael ystyriaeth briodol os ydym yn gwneud cwyn, er nad yw hynny'n golygu y bydd pob cwyn yn cael ei chadarnhau.

Bydd pob cwyn yn cael ei thrin mewn modd sensitif a bydd yr ysgol yn ymateb cyn gynted â phosibl. Gellir ddod o hyd i'r Polisi cwynion trwy ofyn i'r ysgol am gopi.

Sylwch fod llawer o bolisiau, gweithdrefnau a dogfennau yn cael eu lleoli ar wefan yr ysgol. Mae'r rhain yn ddogfennau defnyddiol ac wedi cael eu trafod a'u cytuno gan gorff llywodraethol yr ysgol.

* Noder os gwelwch yn dda - mae wefan yr Ysgol ar hyn o bryd yn cael ei hail greu felly nid oes wybodaeth ar gael yna eto. Os hoffech gopïau o unrhyw bolisi cysylltwch â'r ysgol.